fflecsi

**Gwybodaeth i Deithwyr**

**<u>Gwasanaeth Fflecsi newydd yn lansio ym Mwcle a'r cyffiniau</u>**

**Mae Fflecsi yn ffordd newydd o deithio o amgylch Bwcle a'r cyffiniau.**

**I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, mae angen i chi archebu o flaen llaw. Mae dwy brif ffordd o archebu ar hyn o bryd – drwy'r ap neu drwy ffonio 0300 234 0300. Gall y ganolfan alwadau hefyd eich helpu i gynllunio taith.**

- Yn gweithredu o 7.45am tan 6.30pm ddydd Llun i ddydd Sadwrn (*ac eithrio o 8.15 tan 9.15 a 14.30 tan 15.30 yn ystod y tymor ysgol) mae'r gwasanaeth yn berffaith i fynd i'r gwaith, siopa, cyfarfod â ffrindiau, apwyntiadau, yr ysgol neu gysylltu â bysiau neu drenau eraill.

1. Gallwch ddewis ble i gael eich codi neu eich gollwng gan nad yw'r bws yn rhedeg ar amserlen na llwybr penodol. Fodd bynnag, mae'r llwybr yn amrywio, yn dibynnu pwy arall sydd wedi archebu amseroedd neu leoliadau tebyg.
2. Gallwch archebu drwy ap (sydd hefyd yn caniatáu i chi weld ble mae eich bws), ar y wefan neu drwy ffonio 0300 234 0300.
3. Gallwch dalu mewn sawl ffordd: ar y bws gydag arian parod, £2.50 y siwrnai i oedolion/£1.50 i blant. Gallwch hefyd ddefnyddio FyNgherdynTeithio ac mae deiliaid cerdyn consesiwn yn teithio am ddim.
4. Bydd bws gwyrdd "Go Travel" Sir y Fflint yn parhau i redeg, a fydd yn golygu bod teithwyr yn gallu adnabod y cerbydau'n hawdd.
5. Mae'r system archebu reoledig yn golygu bod teithwyr ar y bws Fflecsi yn siŵr o sedd.




**Ewch hyd yn oed ymhellach: Teithiau hyblyg y gallwch eu harchebu o amgylch Bwcle a'r Ardal, gan gynnwys Canolfan Siopa Brychdyn.**

*Mae'r Map o'r Ardal Wasanaeth isod yn dangos pa gymunedau sy'n gallu defnyddio'r gwasanaeth.*









1. Lawrlwythwch ap fflecsi
2. Nodwch eich manylion
3. Dewiswch eich taith
4. Ewch i’r man codi